

Arolygiad (Lle Rhoddwyd Rhybudd) o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Yr Adran Delweddu Diagnostig –
Ysbyty Spire Iâl

Dyddiad arolygu: 12 a 13 Ionawr
2021

Dyddiad cyhoeddi: 14 Ebrill 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	25
4.	Beth nesaf?	33
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio...	35
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	37
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	38
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	39

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad o bell lle rhoddwyd rhybudd o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o Adran Delweddu Diagnostig Ysbyty Spire Iâl ar 12 a 13 Ionawr 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad o bell yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac Uwch-swyddog Diagnostig Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cyngorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.
- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd ymwybyddiaeth y staff o'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dda iawn ar y cyfan.

Rhoddodd trafodaethau â rheolwyr a staff yr adran sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, wrth ystyried y gweithdrefnau ysgrifenedig a ddarparwyd fel tystiolaeth, roedd yn amlwg bod yr arferion a ddisgrifiwyd gan y staff yn fwy na'r wybodaeth a nodwyd yn y gweithdrefnau perthnasol. Nid oedd unrhyw un o'r gweithdrefnau ysgrifenedig a welwyd yn cynnwys y manylion gofynnol.

Roedd tystiolaeth o weithlu profiadol ac ymrwymedig, gydag ethos gwaith tîm da. Roedd y staff yn fodlon ar lefel y cymorth a roddir gan arweinydd yr adran. Fodd bynnag, nodwyd pryderon ynghylch lefel y gefnogaeth a'r ymgysylltu gan uwch-reolwyr yn yr ysbyty yn fwy cyffredinol.

Nodwyd pryderon ynghylch y capasiti sydd ar gael i alluogi'r staff i gyflawni'r holl dasgau perthnasol yn rhinwedd eu rôl fel deiliaid dyletswydd.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dangosodd y wybodaeth a roddwyd gan y staff fod trefniadau digonol wedi'u rhoi ar waith yn y gwasanaeth i atal heintiau a dihalogi'n effeithiol. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hatgyfnerthu yn sgil COVID-19.
- Roedd trefniadau da ar waith i gasglu adborth gan gleifion ar y gwasanaethau a ddarparwyd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i holl weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr gael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion a'r gweithdrefnau sydd

ar waith yn gywir, a'u bod yn rhoi'r lefel ofynnol o wybodaeth i arwain y staff wrth gyflawni eu rolau.

- Sicrhau y rhoddir prosesau ar waith i wella gwelededd yr uwch-reolwyr yn yr adran, ynghyd â lefel y gefnogaeth a'r ymgysylltu ganddynt.
- Sicrhau y caiff archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) eu hadfer cyn gynted â phosibl
- Sicrhau y cynhelir adolygiad i gadarnhau bod gan y staff y capasiti digonol i gyflawni eu rolau perthnasol
- Sicrhau y caiff sesiynau goruchwyllo ac arfarnu eu cynnal fel mater o drefn, er mwyn nodi a monitro anghenion hyfforddi a datblygu.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Spire Iâl, sy'n rhan o'r Spire Healthcare Group, wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau gofal iechyd preifat i gleifion mewnol ac allanol. Gellir gweld disgrifiad llawn o'r gwasanaethau a ddarperir ar wefan yr ysbyty, neu yn ei Ddatganiad o Ddiben ysgrifenedig¹.

Mae adran radioleg Ysbyty Spire Iâl yn cynnwys un ystafell pelydr-X gyffredinol, sy'n cynnwys cyfarpar fflworosgopeg cyffredinol. Caiff archwiliadau eu cynnal hefyd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar arall, gan gynnwys uned pelydr-X symudol, uwchsain, ac uned fflworosgopeg symudol. Hefyd, darperir gwasanaethau sganio cyseiniant magnetig (MR) a thomograffi gyfrifiadurol (CT) gan ddefnyddio sganwyr symudol Spire sy'n ymweld â'r ysbyty yn rheolaidd.

Mae pum Radiograffydd yn cael eu cyflogi i weithio yn yr adran, sy'n cynnwys arweinydd yr adran. Mae nifer o Radiolegwyr Ymgynghorol sydd â breintiau ymarfer yn yr ysbyty, ond nid ydynt yn cael eu cyflogi gan Spire Healthcare.

Mae'r adran hefyd yn cael cymorth a chynghor gan Arbenigwyr Ffiseg Feddygol drwy gcontract ag Integrated Radiology Services (IRS) Ltd.

¹ Rhaid i wasanaethau rheoleiddiedig (megis ysbytai annibynnol) gwblhau datganiad o ddiben. Dylai'r ddogfen ddisgrifio'r hyn y mae'r busnes yn ei wneud, ac i bwy. Mae'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol yn darparu rhestr i fusnesau o'r fath sy'n nodi'r wybodaeth y dylai'r datganiad o ddiben ei chynnwys.

Ansawdd profiad y claf

Fel rhan o'n harolygiad o bell, gwnaethom ystyried rhai o'r trefniadau a oedd ar waith i gyfathrebu â chleifion a chael adborth ganddynt ar y gwasanaethau a ddarperir.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod trefniadau addas ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n mynychu'r adran.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i gasglu adborth gan gleifion ar y gwasanaethau a ddarperir, gydag arolygon cleifion rheolaidd yn cael eu cynnal, yn ogystal â phroses glir ar gyfer delio â phryderon am y gwasanaeth ac ymateb iddynt.

Fel rhan o'n dull arolygu o bell o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), gwnaethom ddatblygu arolwg cleifion ar-lein er mwyn galluogi cleifion i fynegi eu barn a'u profiadau o ran y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r arolwg hwn drwy boster a arddangoswyd yn yr adran yn ystod y cyfnod cyn ein harolygiad, yn ogystal ag ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol AGIC.

Yn anffodus, ni chawsom unrhyw ymatebion gan gleifion i'n harolwg ar-lein ar gyfer yr arolygiad hwn. Felly, mae'r canfyddiadau isod yn seiliedig ar drafodaethau â'r staff a'r dystiolaeth a roddwyd gan y gwasanaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y staff wrthym fod dolen sain wedi'i gosod yn y brif dderbynfa er mwyn helpu cleifion sy'n gwisgo cymhorthion clyw i gyfathrebu â'r staff. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn ymwybodol o unrhyw gymhorthion eraill i gleifion â nam ar y synhwyrau yn yr adran, ond gwnaethant ddweud wrthym nad oedd unrhyw broblemau wedi codi o ganlyniad i hyn. Cadarnhaodd arweinydd yr adran y gellid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth mewn print bras neu Braille ar gais.

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn ar gael pe bai claf nad yw'n gallu cyfathrebu yn Saesneg yn dod i'r uned. Dywedwyd wrthym hefyd fod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn yr ysbyty, pe bai'n well gan glaf gyfathrebu yn Gymraeg.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth gan ddinasyddion

Roedd trefniadau ar waith i alluogi cleifion i roi adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r adran. Dywedwyd wrthym fod cardiau adborth ar gael yn yr adran er mwyn galluogi cleifion i fynegi eu barn. Hefyd, cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod adborth yn cael ei rannu â nhw'n rheolaidd.

At hynny, dywedwyd wrthym fod yr adran yn cynnal arolwg cleifion bob blwyddyn, a bod y canlyniadau'n cael eu harddangos ym mhrif goridor yr adran. Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom ystyried canlyniadau'r arolwg diweddaraf a gwblhawyd ym mis Mawrth 2020. Roedd canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol iawn, gyda phob claf yn dweud ei fod wedi cael profiad 'ardderchog' neu 'da iawn' o ddefnyddio'r adran ar y cyfan.

Yn ogystal ag arolwg yr adran, dywedwyd wrthym fod Spire Healthcare hefyd yn cwblhau arolygon cleifion mewnol a chleifion allanol ar-lein, er mwyn casglu barn cleifion. Yn y gorffennol, nid oedd yr arolwg hwn wedi ymdrin â gwasanaethau diagnostig, ond cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff y cytunwyd bellach y bydd arolygon yn y dyfodol yn ymdrin â diagnosteg. Bydd hyn yn golygu y bydd adborth ychwanegol ar gael i'r adran.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym, pan fyddai pryderon yn cael eu codi gan gleifion ar lafar, y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud yn y lle cyntaf, lle y bo'n bosibl, i geisio datrys y mater gyda'r claf yn gyflym ac yn effeithlon. Lle nad yw hyn yn bosibl, dywedwyd wrthym y caiff cleifion eu cyfeirio i'r broses pryderon. Dywedwyd wrthym fod poster wedi'i arddangos ym mhrif dderbynfa'r ysbyty yn cynghori cleifion am y weithdrefn pryderon.

Mae cydgysylltydd pryderon dynodedig yn yr ysbyty, sy'n gyfrifol am ddelio ag unrhyw bryderon ffurfiol a wneir am y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym fod y cydgysylltydd yn dadansoddi ac yn ymateb i bob pryder. Hefyd, caiff gwybodaeth am bryderon a godwyd gan gleifion ei thrafod ag arweinwyr yr adran a'i rhannu â'r staff drwy e-bost lle bo angen.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd ymwybyddiaeth y staff o'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dda iawn ar y cyfan.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd gan y staff fod trefniadau digonol wedi'u rhoi ar waith yn y gwasanaeth i atal heintiau a dihalogi'n effeithiol.

Rhoddodd trafodaethau â rheolwyr a staff yr adran sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, wrth ystyried y gweithdrefnau ysgrifenedig a ddarparwyd fel tystiolaeth, roedd yn amlwg bod yr arferion a ddisgrifiwyd gan y staff yn fwy na'r wybodaeth a nodwyd yn y gweithdrefnau perthnasol. Mae ein canfyddiadau yn yr adran hon yn cynnwys y meysydd lle y nodwyd bod angen manylion ychwanegol yn y ddogfennaeth a welwyd.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol i'r staff ei dilyn er mwyn adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad cywir ag ymbelydredd Ïoneiddio yn unol â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (Rheoliadau 2017). Nododd y weithdrefn fod disgwyl i'r staff gadarnhau enw, dyddiad geni a chyfeiriad y

claf, ynghyd â'r rhan o'r corff i'w delweddu, cyn iddo ddod i gysylltiad ag unrhyw ymbelydredd ïoneiddio. Mae'r dull hwn yn unol â chanllawiau presennol y DU².

Ar ôl ystyried gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr, gwelsom fod angen manylion ychwanegol mewn nifer o feysydd, er mwyn egluro'r camau y dylai'r staff eu cymryd i gadarnhau manylion mathau gwahanol o gleifion y gallant ddod ar eu traws. Roedd hyn yn cynnwys cleifion anymwybodol yn y theatr, unigolion nad oes ganddynt alluedd o bosibl, a chleifion pediatrig. At hynny, dylai gweithdrefn y cyflogwr nodi'n glir ble y caiff gwiriadau adnabod eu cofnodi, sut y caiff yr unigolion sy'n gyfrifol am gwblhau'r gwiriadau eu nodi, a'r camau y dylid eu cymryd os bydd unrhyw anghysondebau o ran demograffeg.

Gwnaethom drafod y meysydd lle roedd angen rhagor o eglurder gyda'r uwch-reolwyr fel rhan o'n harolygiad, a rhoddwyd sicrwydd inni ynghylch arferion gwirioneddol yr adran. At hynny, gallai staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r weithdrefn gywir i'w dilyn i adnabod cleifion cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Fodd bynnag, rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig yn adlewyrchu'n gywir y camau y mae angen eu cymryd mewn perthynas ag adnabod cleifion, ac y caiff manylion ychwanegol eu hychwanegu am y camau y dylai'r staff eu cymryd ar gyfer pob math o glaf y gallant ddod ar ei draws.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas ag adnabod cleifion ei hadolygu a'i diweddarau i gynnwys manylion ychwanegol am y broses y dylai'r staff ei dilyn ar gyfer pob math o glaf y gallant ddod ar ei draws.

Unigolion sy'n gallu beichiogi (holi am feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â holi unigolion o oedran beichiogi ynglŷn â beichiogrwydd, cyn iddynt ddod i gysylltiad ag unrhyw ymbelydredd ïoneiddio. Nod y weithdrefn hon yw sicrhau y caiff cymaint o ymholiadau â phosibl eu gwneud mewn modd safonol a chyson.

Roedd y weithdrefn yn nodi'r staff a oedd yn gyfrifol am wneud yr ymholiadau perthnasol, ac yn amlinellu'r broses i'w dilyn yn dibynnu ar ymatebion yr

² Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017

unigolyn. Roedd y weithdrefn hefyd yn cynnwys ystod oedran cleifion y dylid eu holi ynglŷn â beichiogrwydd.

Gwelsom nifer o feysydd yn y weithdrefn lle byddai'n fuddiol cynnwys manylion ychwanegol ar gyfer y staff. Roedd y rhain yn cynnwys eglurder ynghylch ble y caiff manylion mewn perthynas â holi am feichiogrwydd eu cofnodi, manylion am amrywiaeth rhwng y rhywiau, gan gynnwys cysylltiadau â gweithdrefnau diogelu, yn ogystal â'r camau y mae angen eu cymryd wrth ymgysylltu â chleifion ag anawsterau dysgu neu gyfathrebu.

Dywedwyd wrthym fod posterï wedi'u harddangos yn yr adran yn cyngori unigolion i siarad ag aelod o'r staff os ydynt yn feichiog neu'n meddwl y gallent fod yn feichiog. Mae hyn yn bwysig er mwyn lleihau unrhyw niwed posibl i blentyn yn y groth o ganlyniad i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

Darparwyd tystiolaeth o siart llif beichiogrwydd a oedd ar gael i'r staff sy'n gweithio yn yr adran. Roedd y ddogfen hon yn nodi'r camau i'w cymryd yn dilyn yr ymatebion a roddwyd gan y claf. Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â holi am feichiogrwydd, a oedd yn unol â'r gweithdrefnau a oedd ar waith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â holi am feichiogrwydd ei hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn cynnwys digon o fanylion am y broses y dylai'r staff ei dilyn ar gyfer pob math o glaf y gallant ddod ar ei draws.

Cysylltiadau â delweddu anfeddygol

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig fer ar waith mewn perthynas â chysylltiadau â delweddu anfeddygol³. Roedd y weithdrefn yn nodi'r categorïau a dderbynnir yn yr adran ac yn cynnwys asesiadau mewn perthynas ag yswiriant ac ymgysylltu. Fodd bynnag, nodwyd y dylid cynnwys manylion ychwanegol yng ngweithdrefn y cyflogwr i nodi sut y caiff atgyfeiriadau eu nodi, pwy sy'n cyfiawnhau ac yn awdurdodi'r cysylltiadau hyn, a sut y caiff y cysylltiadau hyn eu hoptimeiddio.

³ Mae unigolion sy'n dod i gysylltiad â delweddu anfeddygol yn cynnwys asesiadau iechyd at ddibenion cyflogaeth, mewnffido ac yswiriant. Gall y rhain gael eu cyflawni hefyd er mwyn nodi gwrthrychau sydd wedi'u cuddio yn y corff

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â delweddu anfeddygol ei hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn cynnwys eglurder ychwanegol ynghylch y meysydd a nodwyd.

Canllawiau atgyfeirio

Mae'r canllawiau ar atgyfeirio sydd ar waith yn seiliedig ar gyhoeddiad iRefer Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, sy'n nodi'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio a'r dos o ymbelydredd ar gyfer unigolion sydd am atgyfeirio claf ar gyfer delweddu. Dangosodd y wybodaeth a roddwyd y caiff atgyfeiriadau eu derbyn gan atgyfeirwyr awdurdodedig, ar yr amod eu bod yn unol â'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio. Mae'r wybodaeth ofynnol yn cynnwys manylion perthnasol y claf, enw'r clinigydd sy'n ei atgyfeirio, llofnod yr atgyfeiriwr, yr archwiliad sydd ei angen a gwybodaeth glinigol ddigonol i gyfiawnhau'r cysylltiad. Roedd y wybodaeth ofynnol wedi'i nodi ar ffurflen gais yr adran radioleg.

Ar sail y wybodaeth a roddwyd a'r trafodaethau â'r staff, nid oedd yn glir sut y caiff y canllawiau ar atgyfeirio eu rhannu â phob darpar atgyfeiriwr, yn arbennig y rheini sy'n gweithio y tu allan i'r ysbyty. Felly, mae angen diweddarau'r gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut y caiff y wybodaeth hon ei rhannu â phob atgyfeiriwr.

Ar ôl ystyried y wybodaeth a roddwyd a thrafodaethau â'r uwch-aelodau o'r staff, nodwyd fod y gweithdrefnau'n disgrifio proses ar gyfer derbyn atgyfeiriadau ar lafar yn yr adran. Trafodwyd hyn â'r uwch-aelodau o'r staff ac roedd tystiolaeth o achosion o ymbelydredd blaenorol o ganlyniad i'r arfer hon yn y gwasanaeth. Rhoddodd yr uwch-reolwyr sicrwydd fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r arfer o wneud atgyfeiriadau ar lafar. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod proses ysgrifenedig gadarn ar waith, sy'n nodi'r weithdrefn gywir y dylai'r staff ei dilyn mewn perthynas ag atgyfeiriadau, er mwyn lliniaru'r risg y bydd unrhyw achosion yn y dyfodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr ddiweddarau'r gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol er mwyn nodi sut y caiff canllawiau ar atgyfeirio eu rhannu â phob atgyfeiriwr awdurdodedig.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod proses ysgrifenedig gadarn ar waith ar gyfer

atgyfeiriadau a dderbynnir gan yr Adran Radioleg, ac adolygu'r arfer o wneud atgyfeiriadau ar lafar.

Dyletswyddau ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi rolau gwahanol y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio a chyflawni archwiliadau radioleg ar gyfer cleifion o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd a oedd ar waith ar gyfer yr adran yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r deiliaid dyletswydd penodol yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), sef cyflogwr, atgyfeiriwr⁴, ymarferydd⁵ a gweithredwr⁶.

Roedd rhywfaint o wybodaeth ar gael yn y polisi ynglŷn â'r gofynion hyfforddi ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd. Mae'r polisi'n nodi na fydd unigolyn yn gweithredu fel ymarferydd na gweithredwr oni bai ei fod wedi cael hyfforddiant digonol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) fel rhan o'i gymwysterau proffesiynol neu ar wahân, a'i fod wedi cael hyfforddiant ymarferol priodol lle y bo angen. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y polisi hwn, yn ogystal â gweithdrefnau perthnasol eraill y cyflogwr, nodwyd y byddai'n fuddiol cynnwys mwy o eglurder yn y dogfennau ynghylch yr hyfforddiant penodol sy'n ofynnol ar gyfer rolau pob deiliad dyletswydd, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio o bell o'r adran delweddu diagnostig.

Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau fel deiliaid dyletswydd perthnasol a chwmpas eu hawl o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Hefyd,

⁴ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer cysylltiad meddygol.

⁵ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am gysylltiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau cysylltiadau meddygol.

⁶ O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), ystyr gweithredwr yw unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gysylltiad meddygol.

cadarnhaodd y staff y gallant gael gafael ar gopiâu o'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol pan fo angen. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y ddogfennaeth berthnasol ei diweddarau i nodi'n glir y gofynion penodol o ran hyfforddiant a chymwyseddau ar gyfer rolau deiliaid dyletswydd perthnasol, ynghyd â chwmpas eu hawl.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff y trefniadau ar gyfer hysbysu'r staff am unrhyw newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Roedd hyn yn cynnwys trafod diweddariadau â'r staff a/neu eu rhannu â'r staff drwy e-bost. Dylai'r holl staff lofnodi'r polisïau er mwyn dangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y Polisi Diogelwch Ymbelydredd, yn ogystal â gweithdrefnau perthnasol eraill y cyflogwr, eu diweddarau i gynnwys gofynion hyfforddi penodol ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd.

Cyfiawnhau Cysylltiadau Meddygol Unigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi⁷ cysylltiadau meddygol yn yr adran. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r broses gyfiawnhau.

Dywedwyd wrthym fod cyfiawnhad dros gysylltiadau meddygol unigol yn cael ei gofnodi ar ffurflenni cais yr adran radioleg, gan gynnwys y dyddiad a llofnod yr ymarferydd. Dywedwyd wrthym fod y ffurflenni wedyn yn cael eu sganio ar y system gwybodaeth radioleg electronig.

Wrth ystyried y ddogfennaeth a ddarparwyd, gwnaethom nodi nifer o feysydd lle roedd anghysondebau o ran y derminoleg mewn perthynas â chyfiawnhau ac awdurdodi. Wrth drafod â'r uwch-aelodau o'r staff, gwnaethom argymhell y dylai'r gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol gael eu hadolygu, a'u diweddarau lle bo angen, er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau'n glir ac yn gyson, i osgoi dryswch. Ymdrinnir yn fanylach â'r mater hwn yn adran 'Gweithdrefnau a Phrotocolau' ein hadroddiad.

⁷ Cyfiawnhau yw'r broses o bwysu a mesur manteision disgwylledig cysylltiad yn erbyn y niwed y gallai'r dos ymbelydredd cysylltiedig ei achosi.

Rhaid cyfiawnhau cysylltiadau meddygol unrhyw ofalwr a chysurwr hefyd. Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith a dangosodd y dystiolaeth a roddwyd y dylid cofnodi'r cyfiawnhad hwn gan ddefnyddio'r un broses ag a ddefnyddir i gyfiawnhau cysylltiad meddygol y claf cysylltiedig. Darparwyd tystiolaeth hefyd o'r ffurflen a ddefnyddir gan yr adran i gofnodi cydsyniad gofalwyr a chysurwyr, a oedd yn glir ac yn gryno. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y wybodaeth a roddwyd, nodwyd nifer o feysydd lle roedd angen rhagor o eglurder yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr. Roedd hyn yn cynnwys manylion am y sawl sy'n gyfrifol am gyfiawnhau cysylltiadau gofalwyr a chysurwyr, ble y mae angen cofnodi gwybodaeth a pha wybodaeth a roddir i ofalwyr a chysurwyr am fanteision a risgiau'r cysylltiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â gofalwyr a chysurwyr ei hadolygu a'i diweddarau i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch y meysydd a nodwyd.

Optimeiddio

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio⁸ cysylltiadau. Er enghraifft, mae gweithdrefn gyffredinol y gweithredwr ar waith, sy'n nodi'r camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod dosau cysylltiadau cleifion mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. At hynny, mae Arbenigwr Ffiseg Feddygol y gwasanaeth hefyd yn rhoi cyngor ac yn helpu i optimeiddio cysylltiadau drwy sicrhau ansawdd perfformiad cyfarpar yn rheolaidd a chwblhau archwiliadau blynyddol o ddosau cleifion, a all gynnwys argymhellion i optimeiddio gweithdrefnau penodol.

Rhoddwyd tystiolaeth o'r adroddiad archwilio dosau diweddaraf a gwblhawyd gan yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol, a oedd yn glir ac yn nodi argymhellion i'r adran ar gyfer optimeiddio protocolau archwilio a diweddarau'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol.

⁸ Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a roddwyd a'r trafodaethau â'r staff, nodwyd nad oedd unrhyw siartiau cysylltiadau ar gael yn yr adran ar gyfer yr uned pelydr-X symudol nac ar gyfer cleifion pediatriig. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y siartiau cysylltiadau hyn eu datblygu, a bod y siart cysylltiadau pediatriig yn seiliedig ar bwysau ac oedran y plentyn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ymhellach y caiff dosau cysylltiadau eu cadw mor isel â phosibl, a'u hoptimeiddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff siartiau cysylltiadau eu datblygu ac y caiff cysylltiadau eu hoptimeiddio ar gyfer yr uned pelydr-X symudol a chleifion pediatriig yn yr adran.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer pennu, gweithredu ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig. Lle y bo'n bosibl, mae lefelau cyfeirio diagnostig wedi'u sefydlu ar gyfer yr adran, a dywedwyd wrthym eu bod wedi'u harddangos yn yr ystafell pelydr-X, er mwyn helpu'r staff wrth gynnal gweithdrefnau. Roedd y wybodaeth hon hefyd ar gael yn y Polisi Diogelwch Ymbelydredd, y Rheolau Lleol, a dogfen Gweithdrefn y Cyflogwr.

Ar ôl ystyried y wybodaeth yng ngweithdrefn y cyflogwr, nodwyd bod angen gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag adolygu'r lefelau cyfeirio diagnostig. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys amllder adolygiadau, y broses adolygu, manylion am broses gymeradwyo'r adran a'r camau y dylid eu cymryd os eir uwchlaw'r lefelau cyfeirio diagnostig yn gyson.

Darparwyd copi o'r wybodaeth am lefelau cyfeirio diagnostig sydd i'w gweld yn yr ystafell pelydr-X fel tystiolaeth, a gwelsom fod y mwyafrif o'r lefelau cyfeirio diagnostig yn unol â'r lefelau cenedlaethol ar gyfer y meysydd dan sylw. Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr yn nodi bod yr adran, lle nad oes lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi'u sefydlu eto ar gyfer gweithdrefn benodol, yn mabwysiadu'r lefelau dosau cenedlaethol neu Ewropeaidd perthnasol. Fodd bynnag, wrth drafod â'r staff a'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol, roedd yn amlwg bod lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi'u sefydlu yn lâl, gydag argymhelliad y dylid optimeiddio'r archwiliad o ffactorau cysylltiadau ymhellach fel bod y lefelau cyfeirio diagnostig lleol yn is na'r lefel genedlaethol lle y bo'n bosibl.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i weithio tuag at ostwng lefelau cyfeirio diagnostig lleol islaw'r lefelau cenedlaethol, lle y bo'n bosibl.

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff y caiff lefelau cyfeirio diagnostig lleol eu hadolygu'n rheolaidd. Dywedwyd wrthym y dylid hysbysu rheolwr yr adran os bydd unrhyw gysylltiadau'n mynd uwchlaw'r lefelau cyfeirio diagnostig yn gyson yn yr ystafell pelydr-X. Yna, dylid cynnal adolygiad, gyda mewnbwn gan yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, er mwyn ceisio lleihau dosau i lefel mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Nodwyd y dylid ychwanegu rhagor o eglurder ynghylch y broses hon at weithdrefn berthnasol y cyflogwr, er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r camau y dylid eu cymryd. Dylai'r cyflogwr ystyried cynnwys gwybodaeth ychwanegol am yr archwiliadau o ddosau a gwblheir gan yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol a sut y caiff argymhellion sy'n deillio o'r archwiliadau hynny eu rhoi ar waith.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cynnal archwiliad blynyddol o ddosau cleifion a, lle y bo angen, yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig dilynol a all gynnwys argymhellion ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig lleol newydd neu wedi'u haddasu. At hynny, dywedwyd wrthym fod y Pwyllgor Diogelu Rhag Ymbelydredd hefyd yn gwasanaethu fel Pwyllgor Cysylltiadau Meddygol wrth adolygu lefelau dosau cleifion mewn perthynas â lefelau cyfeirio diagnostig. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn flynyddol. Unwaith eto, dylai'r cyflogwr ystyried cynnwys y wybodaeth hon yng ngweithdrefn y cyflogwr.

Wrth ystyried y wybodaeth am lefelau cyfeirio diagnostig yn y Rheolau Lleol ar Ymbelydredd a dogfen Gweithdrefn y Cyflogwr, a'r wybodaeth a arddangosir yn ystafell pelydr-X yr adran, gwelsom fod y lefelau cyfeirio diagnostig a nodir ym mhob un yn wahanol. Codwyd y mater hwn gydag arweinydd yr adran yn ystod ein harolygiad, a dywedwyd wrthym mai'r wybodaeth yn yr ystafell pelydr-X oedd y fersiwn fwyaf cyfredol a chywir. Cydnabuwyd nad oedd y wybodaeth yn nogfen gweithdrefn y cyflogwr wedi'i diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau i lefelau dosau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â lefelau cyfeirio diagnostig ei hadolygu a'i diweddarau i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch y meysydd a nodwyd.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y wybodaeth am lefelau cyfeirio diagnostig ei hadolygu i gadarnhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn gywir ac yn gyson yn yr holl ddogfennaeth berthnasol sydd ar gael.

Gwerthuso clinigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar waith a oedd yn manylu ar y broses o gynnal gwerthusiad clinigol o gysylltiadau meddygol. Mae'r weithdrefn hon yn nodi bod yn rhaid gwerthuso pob cysylltiad meddygol, a chofnodi'r canfyddiadau dilynol.

Yn ystod ein trafodaethau â'r uwch-reolwyr, dywedwyd wrthym mai mater i'r gweithredwr fyddai cynnal gwerthusiad clinigol o'r cysylltiadau. Dangosodd y wybodaeth a roddwyd y caiff adroddiad ei lunio yn dilyn y gwerthusiad, a'i chyflwyno i'r atgyfeiriwr i'w gynnwys yn nodiadau'r claf.

Wrth ystyried y weithdrefn hon, gwelsom fod diffyg manylion am nifer o feysydd. Ymhlith y rhain roedd sut a ble y caiff gwerthusiadau eu cofnodi, y broses ar gyfer gwerthuso cysylltiadau a gynhelir y tu allan i'r adran, hawliau perthnasol a hyfforddiant ar gyfer staff, a'r broses sydd ar waith ar gyfer ymdrin â chanfyddiadau annisgwyl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â gwerthuso clinigol ei hadolygu a'i diweddarau i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch y meysydd a nodwyd.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr restr gyfredol o'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran. Roedd y rhestr yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod rhaglen sicrhau ansawdd ar waith, a oedd yn manylu ar y profion rheoli ansawdd a gynhelir ar bob darn o gyfarpar delweddu.

Dywedwyd wrthym mai un o radiograffwyr yr adran yw'r arweinydd sicrhau ansawdd, sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff yr archwiliadau rheoli ansawdd gofynnol eu cwblhau. Cadarnhaodd yr uwch-reolwr fod y rhaglen archwilio a sicrhau ansawdd yn cynnwys yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol, er enghraifft yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol sy'n dylunio'r profion rheoli ansawdd gofynnol ac yn cwblhau'r profion blynyddol. Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod archwiliadau rheolaidd o berfformiad cyfarpar yn cael eu cwblhau gan y gwasanaeth ffiseg feddygol, y radiograffwyr a pheirianwyr gwasanaeth y gwneuthurwr.

Dywedwyd wrthym fod yr adran wedi gorfod blaenoriaethu tasgau yn sgil y galw cynyddol am y gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf wrth i gymorth

ychwanegol gael ei ddarparu i'r GIG i ddelio â phandemig COVID-19. Roedd hyn wedi effeithio ar allu'r adran i gwblhau tasgau eraill, mwy rheolaidd, pan fo angen. Mae hyn wedi cynnwys amllder archwiliadau sicrhau ansawdd o gyfarpar. Fodd bynnag, wrth edrych ar yr amserlen sicrhau ansawdd a gedwir gan y gwasanaeth, er bod rhai bylchau'n amlwg, roedd y wybodaeth yn dangos bod y mwyafrif o'r cyfarpar wedi'i archwilio'n rheolaidd drwy gydol 2020.

Wrth ystyried gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â sicrhau ansawdd cyfarpar, nodwyd bod angen manylion ychwanegol er mwyn gwneud yn siŵr bod y broses sydd ar waith, a ddisgrifiwyd gan yr uwch-aelodau o'r staff, yn efelychu'r weithdrefn ysgrifenedig. Ymhlith y manylion ychwanegol sydd eu hangen mae sut a ble y caiff canlyniadau eu cofnodi, hyfforddiant ar gyfer staff sy'n cynnal archwiliadau, pwy sy'n gyfrifol am weithredu ar y canlyniadau a'r broses ar gyfer cymryd camau unioni.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â sicrhau ansawdd a phroffion rheoli ansawdd cyfarpar eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith yn gywir.

Gofal diogel

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Dywedwyd wrthym fod arweinwyr yn yr adran ar gyfer pob maes risg perthnasol. Yr unigolion hyn sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff asesiadau risg cysylltiedig eu cynnal ac y caiff y camau angenrheidiol eu cymryd lle bo angen. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn ymwybodol o'r asesiadau risg a oedd ar waith ar gyfer yr adran.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd gan y staff fod trefniadau digonol ar waith ar gyfer atal heintiau a dihalogi'n effeithiol yn yr adran. Dywedwyd wrthym fod y trefniadau hyn wedi'u hatgyfnerthu yn sgil COVID-19.

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod yn rhaid i unrhyw glaf sy'n dod i'r ysbyty gwblhau holiadur cyn ei apwyntiad, er mwyn holi am unrhyw symptomau heintus. Ar ôl i'r claf gyrraedd, cymerir ei dymheredd a rhoddir masg iddo i'w wisgo. Mae'r ysbyty wedi cyflwyno parthau a llwybrau â chodau lliw i'r cleifion, sy'n golygu y gall cleifion ddilyn llwybr clir drwy'r ysbyty i gyrraedd eu

hapwyntiad. Mae parthau perthnasol yr ysbyty yn seiliedig ar lefel y risg o haint i gleifion, er enghraifft byddai unrhyw gleifion sy'n cael llawdriniaeth yn y parth risg uwch.

Dywedodd y staff wrthym fod amserlenni glanhau dyddiol ar waith, sy'n nodi pa mor aml y mae angen glanhau ardaloedd a chyfarpar perthnasol yn yr adran. Mewn ymateb i bandemig COVID-19, roedd amser ychwanegol wedi'i neilltuo i gwblhau gweithdrefnau, gan sicrhau bod digon o amser ar gael i gwblhau'r gwaith glanhau a dihalogi gofynnol hefyd.

Mae arweinydd atal a rheoli heintiau yn yr adran, sy'n gyfrifol am fynychu cyfarfodydd perthnasol a sicrhau y caiff diweddariadau i weithdrefnau ac arferion yr adran eu rhannu â'r staff.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a gwnaethant ddangos ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli heintiau yn yr adran.

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod aelod o staff yn yr ysbyty sy'n gyfrifol am fonitro argaeledd cyfarpar diogelu personol. Cadarnhaodd y staff fod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael a'u bod wedi cael hyfforddiant ar wisgo a diosg y cyfarpar hwnnw yn ddiogel. Hefyd, dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am ofynion cyfarpar diogelu personol wedi'i harddangos yn yr adran.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Dangosodd trafodaethau â'r staff yn yr adran ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau diogelu cyfredol sydd ar waith. Dywedwyd wrthym fod siart lif ar gael i'r staff sy'n dangos y camau y mae angen eu cymryd, a bod arweinydd diogelu ar gael i roi cyngor ac arweiniad i'r staff. Hefyd dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein er mwyn ei helpu i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r materion diogelu perthnasol cyfredol.

Gofal effeithiol

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Archwilio clinigol

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod amserlen archwilio clinigol ar gael yn yr adran, a oedd yn nodi pa mor aml yr oedd angen cynnal archwiliadau. Fodd bynnag, dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff fod Spire Healthcare wedi oedi archwiliadau er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i fyrddau iechyd i gefnogi

gwaith y GIG yn ystod 2020. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) eu hadfer cyn gynted â phosibl, er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â'r safonau a'r rheoliadau gofynnol.

Mae arweinydd archwilio yn yr adran, sy'n gyfrifol am gynnal y mwyafrif o'r archwiliadau sy'n ofynnol ac am rannu'r canfyddiadau â'r staff.

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff, er bod yr amserlen archwilio yn cael ei chynnal yn lleol yn yr adran, bod Spire Healthcare bellach wedi cyflwyno system archwilio clinigol electronig safonol a chanolog newydd ar gyfer holl dimau'r ysbytai sy'n rhan o'r gwasanaeth. Rhoddwyd y system newydd hon ar waith ar 1 Ionawr 2021, ac mae bellach yn golygu y caiff archwiliadau eu cydlynu'n ganolog; caiff canlyniadau archwiliadau eu bwydo i mewn i dîm canolog, a chaiff yr adran radioleg gyfarwyddiadau mwy safonol ynghylch y rhaglen archwilio. Dywedwyd wrthym hefyd y bydd y system newydd yn golygu y gellir meincnodi canlyniadau ar draws gwasanaethau perthnasol Spire Healthcare drwy ddangosfwrdd canolog.

Darparwyd rhestr o'r archwiliadau newydd i'w cwblhau fel rhan o'r system newydd fel tystiolaeth. Roedd y rhestr a ddarparwyd yn cynnwys yr archwiliadau sy'n ofynnol i gydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, a dylai roi sicrwydd i'r cyflogwr ynghylch cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) eu hadfer cyn gynted â phosibl.

Cyngor arbenigol

Mae gan y gwasanaeth contract ar waith gydag Integrated Radiologist Services (IRS) Ltd i ddarparu Arbenigwyr Ffiseg Feddygol cofrestredig, o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Roedd dau Arbenigwr Ffiseg Feddygol wedi'u neilltuo i roi cymorth a chynghor i'r gwasanaeth. Roedd y contract hefyd yn darparu ar gyfer cymorth Arbenigwyr Ffiseg Feddygol ychwanegol pe bai angen. Roedd y ddau Arbenigwr Ffiseg Feddygol a oedd wedi'u neilltuo i roi cymorth i'r adran wedi'u rhestru ar y rhestr gymeradwy ar gyfer RPA 2000, sef y corff ardystio ar gyfer Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.

Darparwyd tystiolaeth o lythyr penodi'r ddau Arbenigwr Ffiseg Feddygol. Roedd y ddogfen hon wedi'i llofnodi gan arweinydd yr adran. O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), mater i'r cyflogwr yw penodi Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, oni bai ei bod wedi'i dogfennu bod y dasg hon wedi'i dirprwyo i unigolyn arall, yn unol â chyfrifoldebau'r deiliad dyletswydd perthnasol. Wrth ystyried y wybodaeth a roddwyd, ni welwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y dasg hon wedi'i dirprwyo. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol eu diweddarau i adlewyrchu'r trefniant sydd ar waith ar gyfer penodi Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.

Wrth ystyried y wybodaeth yn y ddogfen Polisi Diogelwch Ymbelydredd, nodwyd bod enwau'r Arbenigwyr Ffiseg Feddygol penodedig a oedd wedi'u nodi yn y llythyr penodi yn wahanol i'r wybodaeth yn y ddogfen Polisi Diogelwch Ymbelydredd. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod pob dogfen yn nodi'n gywir y trefniadau sydd ar waith ar gyfer y gwasanaeth mewn perthynas ag Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y staff fod yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn rhoi cymorth a chynghor mewn nifer o feysydd. Ymhlith y meysydd cymorth roedd darparu hyfforddiant i staff, cynnal archwiliadau perthnasol a phrofi cyfarpar, a darparu argymhellion ac adroddiadau perthnasol yn ymwneud â pherfformiad cyfarpar, lefelau cyfeirio diagnostig lleol ac optimeiddio gweithdrefnau. Hefyd, cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff y gallant gysylltu ag Arbenigwr Ffiseg Feddygol am gynghor lle bo angen, ar sail ad hoc.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y ddogfennaeth a'r gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol eu diweddarau er mwyn adlewyrchu'n gywir y trefniadau sydd ar waith ar gyfer penodi Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y gweithdrefnau ysgrifenedig yn nodi'n gywir y trefniadau mewn perthynas â chymorth Arbenigwyr Ffiseg Feddygol penodedig sydd ar waith ar gyfer y gwasanaeth.

Cysylltiadau ymchwil

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â gweithdrefnau ymchwil. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff na chaiff cysylltiadau ymchwil eu cyflawni yn y clinig. Dylai'r cyflogwr ystyried tynnu'r manylion am gysylltiadau ymchwil a chynnwys gweithdrefn y cyflogwr, er mwyn nodi na chaiff cysylltiadau ymchwil eu cyflawni yn lâl nac Abergele.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd strwythurau rheoli sefydliadol ar waith, gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Roedd tystiolaeth o weithlu profiadol ac ymrwymedig, gydag ethos gwaith tîm da. Roedd y staff yn fodlon ar lefel y cymorth a roddwyd gan arweinydd yr adran. Fodd bynnag, nodwyd pryderon ynghylch lefel y gefnogaeth a'r ymgysylltu gan uwch-reolwyr yn y gwasanaeth.

Fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol, nododd ein harolygiad y gofyniad i'r cyflogwr sicrhau y caiff holl weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr eu hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'n gywir yr arferion a'r gweithdrefnau sydd ar waith a'u bod yn darparu'r lefel ofynnol o wybodaeth i alluogi'r staff i'w dilyn.

Nodwyd pryderon ynghylch y capasiti sydd ar gael i alluogi'r staff i gyflawni'r holl dasgau perthnasol yn rhinwedd eu rôl fel deiliaid dyletswyddau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd dogfennau strwythur sefydliadol ar waith ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol, yn ogystal â'r adran radioleg, a oedd yn nodi llinellau adrodd clir. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn fodlon ar lefel y cymorth a roddir gan reolwr yr adran. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon am welededd uwch-reolwyr yn y gwasanaeth, ynghyd â lefel y gefnogaeth a'r ymgysylltu ganddynt.

Fel y nodwyd yn flaenorol, yn sgil y ffaith bod cymorth ychwanegol wedi'i ddarparu i'r GIG yn ystod y mwyafrif o 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19, cafodd nifer o'r arferion gweithio a oedd ar waith eu newid. Roedd hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i gynnal cyfarfodydd staff adrannol ffurfiol, a gynhaliwyd

bob chwarter cyn hynny. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd y cyfarfodydd hyn wedi'u hailgynnull ar gyfer yr adran.

Er ein bod yn cydnabod bod y gwasanaeth wedi cyflwyno sgrymiau staff dyddiol ar gyfer yr ysbyty, y caiff y wybodaeth a drafodir ynddynt ei rhannu â phob aelod o'r staff drwy e-bost, o ystyried y pryderon a fynegwyd gan y staff ynghylch lefel gyfyngedig yr ymgysylltu a'r gefnogaeth, dylai'r uwch-reolwyr gydweithio â'r staff i nodi ffyrdd o wella'r ymgysylltu a'r broses o rannu gwybodaeth rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff sy'n gweithio yn yr adran.

Nid oedd y wybodaeth a roddwyd yn cynnwys unrhyw dystiolaeth i ddangos y strwythur na'r broses llywodraethu diogelwch a oedd ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Felly, nid oedd yn glir pa drefniadau llywodraethu oedd ar waith mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan yr adran. Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff disgrifiad ysgrifenedig neu siart strwythur llywodraethu diogelwch eu datblygu, sy'n amlinellu'r trefniadau/prosesau sydd ar waith ac yn cwmpasu'r holl wasanaethau perthnasol a ddarperir. Dylai'r ddogfen hon nodi sut y caiff y strwythur llywodraethu ei reoli a sut yr adroddir arno yng ngwasanaeth Spire Iâl, yn ogystal ag i Spire Healthcare.

Cyn ein harolygiad, gofynnodd AGIC i uwch-aelodau o staff yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Nod yr holiadur hwn oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ac roedd yn gynhwysfawr. Lle roedd angen gwybodaeth ychwanegol neu eglurder o ran yr ymatebion yn yr hunanasesiad, cawsom hyn yn ddi-oed gan uwch-aelodau o'r staff.

Ar ddiwrnodau ein harolygiad, sicrhodd y staff uwch-reoli eu bod ar gael, a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r materion a nodwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r Darparwr Cofrestredig ystyried ffyrdd o wella gwelededd uwch-reolwyr yn yr adran, ynghyd â lefel yr ymgysylltu a'r gefnogaeth ganddynt.

Rhaid i'r cyflogwr ddatblygu dogfen sy'n nodi'r strwythur/prosesau llywodraethu

diogelwch sydd ar waith, sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau a ddarperir.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Rhoi hawl

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau fel deiliaid dyletswydd perthnasol a chwmpas eu hawl o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Fodd bynnag, ar ôl ystyried y wybodaeth a roddwyd yn dystiolaeth, nid oedd yn glir sut roedd y cyflogwr yn rhoi hawl i ddeiliaid dyletswydd. Ni allai'r staff ddarparu dystiolaeth o'u hawl na chwmpas eu hymarfer. Hefyd, nid oedd gan y cyflogwr unrhyw weithdrefn ysgrifenedig gynhwysfawr ar waith mewn perthynas ag adnabod unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr, yn ymarferydd neu'n weithredwr o fewn cwmpas ymarfer, yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Yn ystod ein trafodaethau â'r uwch-aelodau o'r staff, rhoddwyd sicrwydd ynghylch y trefniadau a oedd ar waith. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn adlewyrchu'r wybodaeth yn y gweithdrefnau ysgrifenedig a oedd ar gael. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ei datblygu sy'n nodi'n glir sut y rhoddir hawl i staff. At hynny, dylai'r weithdrefn gynnwys yr hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn rhoi cyfleoedd i unigolion ymarfer ym mhob maes a sut y rhoddir gwybod i unigolion am eu hawl fel deiliad dyletswydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig gynhwysfawr y cyflogwr ei datblygu sy'n nodi'n glir y trefniadau sydd ar waith mewn perthynas â hawl deiliad dyletswydd ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Cyfarwyddwr yr Ysbyty oedd y cyflogwr dynodedig mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd manylion y trefniant hwn wedi'u nodi ym Mholisi Diogelwch Ymbelydredd/Rheolau Lleol Ymbelydredd yr ysbyty a'r ddogfen Gweithdrefn y Cyflogwr. Roedd y ddogfen hon hefyd yn nodi'r tasgau a oedd wedi'u dirprwyo i'r gweithwyr proffesiynol eraill yn y gwasanaeth mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd y wybodaeth am ddirprwyo tasgau yn y ddogfennaeth a welwyd yn cynnwys

digon o fanylder, ac nid oedd yn cwmpasu pob grŵp staff na rôl pob deiliad dyletswydd.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol pan fo angen. Hefyd, cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod trefniadau ar waith i hysbysu'r staff pan gaiff y gweithdrefnau ysgrifenedig sydd ar waith eu diweddarau, ac i gadarnhau bod y staff wedi darllen a deall y gweithdrefnau sydd ar waith.

Roedd gweithdrefn y cyflogwr ar waith mewn perthynas â'r rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr, a oedd yn nodi y dylai rheolwr yr adran a'r goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd gynnal adolygiadau rheolaidd o ddogfennau, lle y bo'n briodol. Mae'r weithdrefn yn nodi mai diben yr adolygiad hwn yw sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion adrannol yn cydymffurfio â gweithdrefnau perthnasol y cyflogwr. Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r weithdrefn hon, nodwyd bod angen manylion ychwanegol i egluro'r broses ar gyfer rheoli fersiynau dogfennau, yn ogystal â'r broses gymeradwyo a'r trefniadau o ran amllder adolygiadau sydd ar waith ar gyfer adolygu dogfennaeth y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Fel y nodwyd drwy gydol ein hadroddiad, ar ôl inni adolygu'r gweithdrefnau ysgrifenedig, nodwyd nad oedd yr un o weithdrefnau'r cyflogwr yn cynnwys y manylder na'r eglurder sydd eu hangen i ddarparu gweithdrefnau ystyrlon i'r staff eu dilyn. Yn ystod trafodaethau â'r staff fel rhan o'n harolygiad, cawsom sicrwydd ynghylch yr arferion sydd ar waith. Fodd bynnag, roedd yr arferion a ddisgrifiwyd gan y staff yn fwy na lefel y manylder yn y gweithdrefnau ysgrifenedig. Felly, rhaid cynnal adolygiad o holl weithdrefnau'r cyflogwr er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol yn adlewyrchu'r manylion, yr arferion a'r trefniadau sydd ar waith, yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a nodir yn ein hadroddiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff holl weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'n gywir yr arferion a'r trefniadau sydd ar waith, yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a nodir drwy gydol yr adroddiad hwn.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig y cyflogwr eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch

y meysydd a nodwyd.

Cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol

Disgrifiodd yr uwch-reolwyr y broses sydd ar waith os bydd rhywbeth yn digwydd neu os amheuir bod rhywbeth wedi digwydd, a all fod wedi achosi cysylltiad damweiniol neu anfwriadol i gleifion. Yn yr achos cyntaf, mae'n ofynnol i'r staff hysbysu rheolwr yr adran a/neu'r goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd. Yna, ymchwilir i'r achos a chaiff ffurflen asesu dos ei chwblhau, er mwyn cofnodi'r wybodaeth berthnasol am y cysylltiad. Anfonir y wybodaeth hon at yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol i'w hadolygu, a fydd yn nodi a oes angen cyflwyno hysbysiad i AGIC neu reoleiddiwr allanol arall.

At hynny, dywedwyd wrthym y caiff pob achos neu achos a fu bron â digwydd ei gofnodi drwy Datix, sef y system cofnodi digwyddiadau electronig. Dywedwyd wrthym y caiff pob achos a phryder a gofnodir drwy Datix eu hadolygu'n ddyddiol gan y tîm llywodraethu clinigol lleol. Yna, bydd y tîm hwn yn rhoi cyngor ac yn nodi a ddylid uwchgyfeirio'r achos i dîm llywodraethu canolog Spire Healthcare drwy hysbysiad 'achos difrifol y mae angen ymchwilio iddo'. Yna, bydd y tîm hwn yn nodi a ddylid cynnal ymchwiliad manylach i ddadansoddi'r achos sylfaenol, yn ychwanegol at y weithdrefn safonol.

Os penderfynir y gallai'r achos fod wedi deillio o ddiffygion cyfarpar, ni fyddai'r cyfarpar yn cael ei ddefnyddio nes y byddai'r ymchwiliad wedi'i gwblhau.

Os bydd yr achos yn ymwneud â chysylltiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol claf, fel y diffinnir yng nghanllawiau'r awdurdodau gorfodi, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y caiff y claf ei hysbysu'n ysgrifenedig a'i wahodd i drafod hynny. Hysbysir atgyfeiriwr y claf hwn hefyd.

Caiff cofnod gwybodaeth o bob achos sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ei gynnal gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, wrth ystyried y wybodaeth hon, ni welwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gwaith dadansoddi tueddiadau'n cael ei wneud mewn perthynas â'r achosion hyn nac achosion a fu bron â digwydd, na sut y byddai'r broses honno'n cael ei defnyddio i lywio arferion.

Gallai pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef ddisgrifio'r broses i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am achosion ac achosion a fu bron â digwydd. Hefyd,

cadarnhaodd y staff fod adborth yn cael ei roi i'r adran yn dilyn achosion a gofnodwyd.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig ar waith ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol yn yr adran. Fodd bynnag, nodwyd bod angen manylion ychwanegol i adlewyrchu'r broses sydd ar waith a ddisgrifiwyd gan y staff. Dylai'r cyflogwr ystyried cynnwys rhagor o fanylion, gan gynnwys eglurder ynghylch ble y caiff y wybodaeth berthnasol ei chofnodi, pwy sy'n cynnal yr ymchwiliadau a phwy sy'n hysbysu'r atgyfeiriwr a'r claf (os oes angen).

Ar ôl adolygu gweithdrefnau'r cyflogwr a oedd ar gael, nodwyd bod angen rhagor o fanylion mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol clinigol sylweddol am nad oedd hyn wedi'i ddisgrifio'n glir yn y weithdrefn bresennol. Mae gweithdrefn cyflogwr ar gyfer rheoli cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol clinigol sylweddol yn ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

At hynny, nodwyd bod y gweithdrefnau presennol yn nodi y dylid rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ddiffygion cyfarpar. Fodd bynnag, dylid cyflwyno'r hysbysiadau hyn i AGIC yn y lle cyntaf am eu bod bellach yn rhan o gwmpas y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Dylai'r cyflogwr hefyd ystyried cynnwys rhagor o fanylion yng ngweithdrefnau perthnasol y cyflogwr mewn perthynas â phroses cofnodi digwyddiadau AGIC, gan gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen a'r amserlenni ar gyfer cofnodi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y cynhelir dadansoddiad manwl (gan gynnwys dadansoddi themâu a thueddiadau) o gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol er mwyn gwneud yn siŵr y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu ac y caiff unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol y cyflogwr mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'r broses i'w dilyn yn gywir.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig ar waith sy'n cynnwys manylion penodol am y broses o reoli cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol clinigol sylweddol.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'n gywir ofynion proses cofnodi digwyddiadau AGIC.

Y Gweithlu

Fel rhan o'n harolygiad, cynhaliwyd trafodaethau ag uwch-reolwyr ar gyfer y gwasanaeth yn ogystal â detholiad o'r staff sy'n gweithio yn yr adran. At hynny, dosbarthwyd arolwg staff er mwyn galluogi pob aelod o staff yr adran i fynegi ei farn.

Teimlai'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod lefelau staffio'r adran yn ddigonol, ond gwnaethant ddweud bod y galw cynyddol ar y gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf wedi ei gwneud hi'n anodd cynnal lefel y tasgau sydd ei hangen fel rhan o'u rolau. Cadarnhaodd y staff eu bod yn teimlo bod digon o amser ar gael i gyflawni elfennau clinigol eu rolau, ond ei bod hi'n anodd cyflawni elfennau ychwanegol eu rolau, er enghraifft sicrhau ansawdd ac archwilio.

Roedd yn amlwg o'n trafodaethau bod yr adran yn cynnwys staff profiadol ac ymrwymedig, a bod ethos gwaith tîm da. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, at ei gilydd, roedd y staff yn fodlon ar lefel y cymorth a roddir gan arweinydd yr adran. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon am lefel y gefnogaeth a'r ymgysylltu gan uwch-reolwyr yn y gwasanaeth.

Yn ystod ein harolygiad, dywedwyd wrthym y byddai arweinydd yr adran yn gadael ei rôl yn yr wythnosau nesaf. Dywedwyd wrthym fod y rôl wedi cael ei hysbysebu a bod cyfweiliadau wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, mynegodd staff yr adran bryderon ynglŷn â'r mater hwn, yn arbennig mewn perthynas â'r wybodaeth gyfyngedig a oedd wedi'i rhoi iddynt am y cynlluniau i benodi arweinydd newydd a'r trefniadau ar gyfer y cyfnod interim. Roedd hyn wedi arwain at bryder ac anesmwythder ymhlith y tîm. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, dylai'r uwch-reolwyr sicrhau y caiff trefniadau eu rhoi ar waith i wella'r broses o ymgysylltu a rhannu gwybodaeth â'r staff sy'n gweithio yn yr adran.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r galw cynyddol ar y gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio ar nifer o arferion safonol. Roedd hyn wedi cynnwys atal cyfarfodydd chwarterol ffurfiol, a dywedwyd wrthym hefyd nad oedd trafodaethau arfarnu a goruchwylio staff â rheolwyr llinell wedi bod yn digwydd mor rheolaidd â'r disgwyl. Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff y cyfarfodydd hyn eu hadfer fel y gellir nodi a monitro anghenion hyfforddi a datblygu'r staff.

Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym fod trefniadau ar waith i alluogi'r staff i gael cymorth llesiant ychwanegol lle bo angen. Fodd bynnag, dangosodd yr adborth a gafwyd gan y staff nad oedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael na sut i fanteisio arno. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y trefniadau cymorth sydd ar gael a manylion am sut i fanteisio arni.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau y cynhelir adolygiad i gadarnhau bod gan y staff y capasiti digonol i gyflawni eu rolau perthnasol.

Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau y caiff trafodaethau goruchwyllo ac arfarnu rheolaidd eu cynnal ar gyfer y staff, fel y gellir nodi a monitro anghenion hyfforddi a datblygu'r staff.

Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddynt.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd (2018).

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig â chysylltiad yn cael ei asesu yn erbyn y budd clinigol.
- Nid yw cleifion yn cael eu hamlygu'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio. Caiff gwasanaethau hyd at saith wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch-swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Cyn yr arolygiad, mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau ffurflen hunanasesu a darparu dogfennaeth ategol yn dystiolaeth. Mae'r arolwg o bell dros gyfnod o ddeuddydd yn cynnwys trafodaethau â'r uwch-reolwyr a'r staff gweithredol sy'n gweithio yn yr adran, mewn perthynas â'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith.

Er mwyn ein galluogi i gasglu barn ychwanegol, caiff arolygon cleifion a staff perthnasol eu cynnal yn ystod yr wythnosau cyn ein harolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd i'oneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty:Spire Iâl

Ward/adran:Delweddu Diagnostig

Dyddiad arolygu: 12 a 13 Ionawr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty:Spire Iâl

Ward/adran:Delweddu Diagnostig

Dyddiad arolygu: 12 a 13 Ionawr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Darparu gofal diogel ac effeithiol				
1.1 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas ag adnabod cleifion ei hadolygu a'i diweddarau i gynnwys manylion ychwanegol am y broses y dylai'r staff ei dilyn ar gyfer pob math o glaf y gallant ddod ar ei draws.	Rheoliad (6) Atodlen 2(a)	Mae Gweithdrefnau'r Cyflogwr corfforaethol Spire wrthi'n cael eu hadolygu. Mae'r gwaith adolygu hwn yn cael ei gwblhau gan ein Cyngorydd Diogelu Rhag Ymbelydredd allanol corfforaethol. Bydd y diweddariad yn cynnwys lefel uwch o safoni a llai o angen i ysbytai Spire leoleiddio eu dogfennaeth ar gyfer gweithdrefnau safonol sy'n gyffredin i bob lleoliad. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys egluro'r weithdrefn ar gyfer adnabod oedolion cymwys, Plant a Phobl Ifanc, cleifion nad oes ganddynt alluedd, a chleifion	Geraint Evans, Arbenigwr Delweddu Clinigol Cenedlaethol Spire Healthcare/ Laura Gauntlett, Radiograffydd	30/04/21 ar gyfer polisi cenedlaethol 31/05/21 ar gyfer gwaith mabwysiadu lleol

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		anymwybodol/wedi'u llonyddu. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, bydd Spire lâl yn mabwysiadu'r rheolau cenedlaethol ac yn eu haddasu ar gyfer amrywiadau lleol a chysylltiadau allweddol, gan eu personoli i wasanaeth yr ysbyty.	a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela Mackie, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	
1.2 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â holi am feichigrwydd ei hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn cynnwys digon o fanylion am y broses y dylai'r staff ei dilyn ar gyfer pob math o glaf y gallant ddod ar ei draws.	Rheoliad (6) Atodlen 2(c) Rheoliad 11(1)(f)	Fel y nodwyd yn 1.1, mae gweithdrefnau corfforaethol Spire i gyflogwyr wrthi'n cael eu diweddarau. Yn dilyn y gwaith hwn, bydd gweithdrefnau lleol Spire lâl yn adlewyrchu'r newidiadau hyn, a byddant yn cael eu diweddarau. Bydd y weithdrefn ar gyfer holi am statws beichiogrwydd unigolion sydd mewn oed i gael plant, gan gynnwys cleifion nad oes ganddynt alluedd, a chleifion anumwybodol/wedi'u llonyddu, yn gliriach ac yn cynnwys mwy o fanylder.	Geraint Evans, Arbenigwr Delweddu Clinigol Cenedlaethol	31/05/21
1.3 Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â delweddu anfeddygol ei hadolygu er mwyn	Rheoliad 3 (f) Rheoliad (6) Atodlen 2(m)	Pan gaiff Gweithdrefn y Cyflogwr wedi'i diweddarau Spire ei chyhoeddi, caiff polisi lleol Spire lâl ei hadolygu er mwyn nodi'n glir mai dim ond Radiolegydd all gyfiawnhau cysylltiadau meddygol, ac nad ydynt yn rhan	Laura Gauntlett, Radiograffydd a	31/05/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwneud yn siŵr ei bod yn cynnwys eglurder ychwanegol ynghylch y meysydd a nodwyd.		o gwmpas protocolau awdurdodi dirprwyedig.	Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela Mackie, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	
1.4 Dylai'r cyflogwr ddiweddarau'r gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol er mwyn nodi sut y caiff canllawiau ar atgyfeirio eu rhannu â phob atgyfeiriwr awdurdodedig.	Rheoliad 6(5)(a)	Ni all Spire Healthcare drefnu mynediad i bob atgyfeiriwr awdurdodedig i iRefer. Yn lle hynny, bydd Spire lâl yn anfon gohebiaeth at bob atgyfeiriwr lleol i'w gynghori y dylai sicrhau bod ganddo fynediad i iRefer. Caiff safbwynt Spire Healthcare am fynediad i iRefer ei gynnwys yng Ngweithdrefn y Cyflogwr wedi ei diweddarau, sydd wrthi'n cael ei hadolygu.	Gwasanaethau Cwsmeriaid/Su e Jones, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	31/05/21
1.5 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod proses ysgrifenedig gadarn ar waith ar gyfer atgyfeiriadau a dderbynnir gan yr Adran Delweddu Diagnostig, ac adolygu'r arfer o wneud atgyfeiriadau ar lafar.	Rheoliad 10(5)	Caiff polisi lleol Spire lâl ei ddiweddarau i gadarnhau na chaiff atgyfeiriadau ar lafar eu derbyn. Mae Spire lâl yn darparu gofal dewisol wedi'i gynllunio a gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys. Mae gan Spire lâl Swyddog Meddygol Preswyl ar ddyletswydd bob amser. Byddai unrhyw atgyfeiriadau brys annisgwyl yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig yn dilyn asesiad gan y Swyddog Meddygol Preswyl.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela	31/05/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Mackie, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	
1.6 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y Polisi Diogelwch Ymbelydredd, yn ogystal â gweithdrefnau perthnasol eraill y cyflogwr, eu diweddarau i gynnwys gofynion hyfforddi penodol ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd.	Rheoliad 6(3)(b) Rheoliad 17(1)	Mae dogfennau hyfforddiant a chymhwysedd lleol ar waith a byddant yn cael eu hychwanegu at Weithdrefn y Cyflogwr wedi'i diweddarau fel rhan o'r adolygiad ehangach arfaethedig.	Geraint Evans, Arbenigwr Delweddu Clinigol Cenedlaethol	31/05/21
1.7 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â gofalmwr a chysurwyr ei hadolygu a'i diweddarau i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch y meysydd a nodwyd.	Rheoliad 6 Atodlen 2 (n) Rheoliad 12(5)	Caiff polisi lleol Spire lâl ei adolygu er mwyn cynnwys y broses a'r trefniadau ar gyfer dirprwyo cyfiawnhad, a chyfleu risgiau a manteision cysylltiad cysurwyr a gofalmwr fel rhan o'r diweddariad ehangach i'r adolygiad o weithdrefnau corfforaethol Spire a'r adolygiad o Weithdrefn y Cyflogwr lleol lâl.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela Mackie, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	31/05/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.8 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff siartiau cysylltiadau eu datblygu ac y caiff cysylltiadau eu hoptimeiddio ar gyfer yr uned pelydr-X symudol a chleifion pediatrig yn yr adran.	Rheoliad 12(1) a (3) ac (8)(a)	Bydd IRS Medical Physics yn mynychu Spire Iâl ar 5 Mawrth 2021 i ddatblygu ac optimeiddio siartiau cysylltiadau pelydr-X a siartiau cysylltiadau pediatrig. Pan fydd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau, caiff y rhain eu rhannu â'r tîm.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd	31/03/21
1.9 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â lefelau cyfeirio diagnostig ei hadolygu a'i diweddaru i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch y meysydd a nodwyd.	Rheoliad 6 Atodlen 2(f) Rheoliad 6(7)	Bydd IRS Medical Physics a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd Spire Iâl yn adolygu'r dogfennau ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig priodol, lefelau ymchwilio a phrosesau uwchgyfeirio os eir uwchlaw'r lefelau cyfeirio diagnostig. Caiff y weithdrefn ysgrifenedig ei diweddaru i adlewyrchu hyn ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd	31/03/21
1.10 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y wybodaeth am lefelau cyfeirio diagnostig ei hadolygu i gadarnhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn gywir ac yn gyson yn yr holl ddogfennaeth berthnasol sydd ar gael.	Rheoliad 6(5)(c)	Pan fydd yr adolygiad a ddisgrifir yn 1.9 wedi'i gwblhau, caiff yr holl ddogfennaeth mewn ffolderi ac sy'n cael ei harddangos ei hadolygu a'i diweddaru er mwyn sicrhau cysondeb.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd	31/03/21
1.11 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y weithdrefn ysgrifenedig mewn	Rheoliad 6	Caiff pob cysylltiad a gyflawnir yn adran delweddu Spire	Sue Jones, Cyfarwyddwr	31/05/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
perthynas â gwerthuso clinigol ei hadolygu a'i diweddarau i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch y meysydd a nodwyd.	Atodlen 2(j) Rheoliad 12(9)	lâl ei werthuso'n glinigol a'i gofnodi gan radiolegydd. Y tu allan i'r adran delweddu, mae archwiliad o nodiadau meddygol bellach ar waith er mwyn sicrhau y caiff gwerthusiad clinigol o gysylltiad ei ddogfennu yn nodiadau'r claf, a bod y canlyniadau ar gael er mwyn meincnodi perfformiad ar draws grŵp Spire. Bydd Gweithdrefnau'r Cyflogwr wedi'u diweddarau yn gliriach ac yn cynnwys y manylion ychwanegol sydd eu hangen.	yr Ysbyty, Pamela Mackie, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	
1.12 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â sicrhau ansawdd a phrofion rheoli ansawdd cyfarpar eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith yn gywir.	Rheoliad 15(1)(a) Rheoliad 6 Atodlen 2(d)	Caiff polisi lleol Spire lâl ei adolygu i gynnwys gweithdrefnau ar gyfer cynnal profion Sicrhau Ansawdd penodol ar gyfarpar, amlder archwiliadau a lefelau cyfeirio. Mae hyn yn rhan o'r diweddariad corfforaethol ehangach i Weithdrefnau'r Cyflogwr, fel y nodir uchod.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd	31/05/21
1.13 Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) eu hadfer cyn gynted â phosibl.	Rheoliad 7	Mae archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) wedi ailgychwyn ac maent yn cael eu dogfennu ar y system archwilio corfforaethol (AMaT). Mae hyn yn golygu bod modd goruchwyllo holl safleoedd Spire a monitro achosion o ddiffyg cydymffurfio a chynnydd o ran cwblhau camau gweithredu	Sue Jones, Radiograffydd	28/02/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.14 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y ddogfennaeth a'r gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol eu diweddaru er mwyn adlewyrchu'n gywir y trefniadau sydd ar waith ar gyfer penodi Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.	Rheoliad 14(1) Rheoliad 6 Atodlen 2(b)	Mae'r llythyrau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru i gynnwys llofnod Cyfarwyddwr yr Ysbyty ac enwau cywir yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol penodedig. Caiff y rhain eu hailgyhoeddi gan y llofnodwr awdurdodedig	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Sue Jones, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	31/03/21
1.15 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y gweithdrefnau ysgrifenedig yn nodi'n gywir y trefniadau mewn perthynas â chymorth Arbenigwyr Ffiseg Feddygol penodedig sydd ar waith ar gyfer y gwasanaeth.	Rheoliad 14(1)	Yn yr un llythyrau ag a nodir yn 1.14, caiff y trefniadau cymorth eu dogfennu a'u hailgyhoeddi.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Sue Jones, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	31/03/21
2. Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
2.1 Dylai'r cyflogwr ystyried ffyrdd o wella gwelededd uwch-reolwyr yn yr	Safon 24 – Arferion	Caiff staff delweddu eu gwahodd i fynychu sgrymiau dyddiol tîm amlddisgyblaethol yr ysbyty dan arweiniad y	Pamela Mackie,	28/02/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
adran, ynghyd â lefel yr ymgysylltu a'r gefnogaeth ganddynt.	Recriwtio a Chyflogi'r Gweithlu	tîm uwch-reolwyr, yn ogystal â chyfarfodydd allweddol eraill yn yr ysbyty, ac mae rota ar waith i alluogi aelodau'r tîm delweddu i fynychu'r sgrymiau a'r cyfarfodydd hyn. Mae'r tîm uwch-reolwyr bellach yn cynnal ymweliadau rheolaidd â'r adran delweddu.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol/Staff Delweddu	
2.2 Rhaid i'r cyflogwr ddatblygu dogfen sy'n nodi'r strwythur/prosesau llywodraethu diogelwch sydd ar waith, sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau a ddarperir.	Rheoliad 8(4)	Mae siart sefydliadol corfforaethol ar gael sy'n manylu ar strwythur swyddogaethau canolog. Mae'r siart sefydliadol lleol ar gyfer strwythur llywodraethu lleol wrthi'n cael ei diweddarau, a chaiff ei harddangos pan fydd wedi'i chwblhau.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela Mackie, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	31/03/21
2.3 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig gynhwysfawr y cyflogwr ei datblygu sy'n nodi'n glir y trefniadau sydd ar waith mewn perthynas â hawl deiliad dyletswydd ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd.	Rheoliad 6 Atodlen 2 (b)	Mae siartiau rolau a deiliaid dyletswydd grŵp lleol, cymwyseddau, cwmpasau ymarfer a chofnodion hyfforddiant ar gyfer atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr ar waith. Bydd yr adolygiad o Weithdrefnau'r Cyflogwr sy'n mynd rhagddo yn cynnwys y term 'hawl' er mwyn gwneud y broses yn gliriach, a chaiff dogfennau hawl unigol eu	Geraint Evans, Arbenigwr Delweddu Clinigol Cenedlaethol/ Pamela Mackie,	30/06/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		datblygu.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	
2.4 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff holl weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'n gywir yr arferion a'r trefniadau sydd ar waith, yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a nodir drwy gydol yr adroddiad hwn.	Rheoliad 6(1)(a)(b) a (2) Rheoliad 10(1)	Bydd yr adolygiad o Weithdrefnau'r Cyflogwr Spire a'r adolygiad dilynol o bolisi lleol Spire lâl yn cynnwys yr holl ofynion a nodir yn adroddiad AGIC. Mae dadansoddiad o fylchau wrthi'n cael ei baratoi ar y cyd â'r diweddariad drafft i'r gweithdrefnau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela Mackie, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	31/05/21
2.5 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig y cyflogwr eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch y meysydd a nodwyd.	Rheoliad 6 Atodlen 2 (d)	Fel Gweithred 2.4	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela Mackie,	31/05/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	
2.6 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y cynhelir dadansoddiad manwl (gan gynnwys dadansoddi themâu a thueddiadau) o gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol er mwyn gwneud yn siŵr y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu ac y caiff unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith.	Rheoliad 8(3)	Er ei bod hi'n anodd nodi tueddiadau gyda niferoedd isel iawn o achosion o gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol, caiff hyn ei ychwanegu fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd pwyllgor llywodraethu'r ysbyty er mwyn dangos bod hyn wedi'i ystyried a'i gofnodi. Caiff achosion o'r fath eu hadolygu ar y cyd ag achosion blaenorol, a'u dadansoddi er mwyn nodi unrhyw themâu neu dueddiadau. Caiff canlyniadau hefyd eu trafod a'u dogfennu mewn cyfarfodydd staff, a'u huwchgyfeirio i'r RPA fel y bo'n briodol am gyngor.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela Mackie, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	31/05/21
2.7 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol y cyflogwr mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'r broses i'w dilyn yn gywir.	Rheoliad 8(4)	Gweler pwynt 1.1 uchod. Mae Gweithdrefnau corfforaethol y Cyflogwr wrthi'n cael eu diweddarau a byddant yn cynnwys rhagor o eglurder ynghylch y broses gywir i'w dilyn wrth ymateb i unrhyw gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol a gaiff eu cofnodi neu eu huwchgyfeirio. Bydd gweithdrefnau ysgrifenedig Spire lâl yn adlewyrchu'r broses gorfforaethol pan gaiff ei chyhoeddi.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd	31/05/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
2.8 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig ar waith sy'n cynnwys manylion penodol am y broses o reoli cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol clinigol sylweddol.	Rheoliad 8 (1) Rheoliad 6 Atodlen 2(I)	Gweler 2.7 uchod Bydd y ddogfen wedi'i diwedddaru hon yn cynnwys cyfeiriad at bolisi corfforaethol FIN01 (Polisi Cofnodi Digwyddiadau) ac atodiad 5G – (Ymchwiliad i ddos sy'n fwy na'r hyn a fwriadwyd), ac atodiad 5H (Ymchwiliad i achos o ddelweddu yn y man anghywir) fel templedi ar gyfer ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau o'r fath.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd	31/05/21
2.9 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol eu hadolygu a'u diwedddaru i adlewyrchu'n gywir ofynion proses cofnodi digwyddiadau AGIC.	Rheoliad 8(4)(b)(iv)	Gweler 2.7 uchod Caiff gweithdrefnau Spire Iâl eu diwedddaru i adlewyrchu'r gofynion lleol ar gyfer rhoi gwybod i AGIC am ddigwyddiadau o'r fath.	LG Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd	31/05/21
2.10 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y cynhelir adolygiad i gadarnhau bod gan y staff y capasiti digonol i gyflawni eu rolau perthnasol.	Safon 25 – Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol	Mae lefelau staffio presennol yr adran delweddu yn unol ag anghenion y busnes ar gyfer gweithgarwch clinigol. Mae'r rotas staffio wrthi'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y caiff digon o amser ei neilltuo i'r staff gyflawni eu cyfrifoldebau ychwanegol. Caiff hyn ei ffurfioli pan fydd Rheolwr Delweddu newydd wedi'i recriwtio a phan fydd wedi cael cyfle i adolygu'r prosesau gweithio a sgiliau a gallu'r staff.	Nicola Margerrison, Uwch-radiograffydd	30/06/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
2.11 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff trafodaethau goruchwyllo ac arfarnu rheolaidd eu cynnal ar gyfer y staff, fel y gellir nodi a monitro anghenion hyfforddi a datblygu'r staff.	Safon 25 – Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol	Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cwblhau ei arfarniadau ar gyfer 2020, ac mae amcanion ar gyfer 2021 wrthi'n cael eu trafod â phob aelod o'r staff yn unol â therfyn amser Spire, sef 31/03/21. Caiff anghenion hyfforddi a datblygu eu trafod fel rhan o'r broses (arfarnu) Galluogi Rhagoriaeth, ac mae gan bob aelod o'r staff gynllun datblygu personol.	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwyllydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela Mackie, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol/Nicola Margerrison, Uwch-radiograffydd	31/03/21
2.12 Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddynt.	Safon 22 – Rheoli Risg ac Iechyd a Diogelwch	Mae Spire wedi gwella ei wasanaethau llesiant yn ystod pandemig COVID-19 ac mae amrywiaeth o adnoddau newydd ar gael ar draws y grŵp, a rennir drwy fewnrwyd Spire. Er mwyn sicrhau bod y staff yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau hyn, bydd Spire lâl yn gwneud y canlynol: • Arddangos gwybodaeth am sut y gall y staff fanteisio ar y Rhaglen Cymorth i Weithwyr • Anfon hysbysiadau drwy e-bost am fentrau llesiant ar	Laura Gauntlett, Radiograffydd a Goruchwyllydd Diogelu Rhag Ymbelydredd/ Pamela Mackie,	31/03/21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gyfer y grŵp cyfan • Arddangos gwybodaeth am swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl • Anfon negeseuon e-bost rheolaidd yn nodi dyddiadau pan fydd cynghorydd Iechyd Galwedigaethol ar y safle	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sue Jones

Swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad: 01/03/2021